Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau

## Ymgynghoriad

Mawrth 2023

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn cynnal ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau.

Cynhaliwyd yr adolygiad mawr diwethaf o'r gyfundrefn cofrestru a datgan buddiannau yn 2014. Argymhellodd yr adolygiad hwnnw y dylid cyflwyno system o ddatgan buddiannau perthnasol er mwyn gwella tryloywder, yn ogystal â gwneud rhai newidiadau i gategorïau fel ymddiriedolaethau dall a rhanddaliadau.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i adolygu a yw'r trefniadau ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau yn parhau'n addas i'r diben ar draws Busnes y Senedd.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn ac unrhyw beth arall ar y pwnc rydych chi'n ei ystyried sy'n berthnasol. Cyflwynwch eich ymateb erbyn 24 Ebrill 2023 i SeneddSafonau@senedd.cymru.

# Sut i ymateb

## Darparu Tystiolaeth Ysgrifenedig

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, neu'r ddwy, a gofynnwn i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg ymateb yn unol â'u rhwymedigaethau eu hunain. Rhowch wybod i'r Pwyllgor wrth gyflwyno ymatebion os ydych yn bwriadu darparu cyfieithiad yn ddiweddarach.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Os ydych chi am gyflwyno tystiolaeth, cyflwynwch un ddogfen (dogfen Word fyddai orau) gydag unrhyw dablau, taenlenni ac atodiadau wedi'u hymgorffori ym mhapur eich cyflwyniad i **SeneddSafonau@senedd.cymru**. Ni ddylai cyflwyniadau fod yn hwy na phum ochr tudalen A4, gyda'r paragraffau wedi'u rhifo.

Mae canllawiau pellach ar baratoi tystiolaeth ysgrifenedig i'w cael ar y **wefan y Senedd .**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 5.00pm dydd Llun 24 Ebrill 2023.

## Datgelu gwybodaeth

Cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried **polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth**. Fel arall, gellir gofyn am gopi caled o'r polisi hwn trwy gysylltu â Chlerc y Pwyllgor (0300 200 6565) neu SeneddSafonau@senedd.cymru

# Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau - Ymgynghoriad

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnal ymchwiliad i gofrestru a datgan buddiannau. Cytunwyd i ystyried:

> *A yw trefniadau presennol y Senedd ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau yn parhau'n addas i'r diben ar draws Busnes y Senedd.*

**2.** Mae Rheol Sefydlog 2 yn nodi bod yn rhaid i'r Llywydd

> *"... gadw a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau, a rhaid bod copïau ar gael i'r Aelodau a'r cyhoedd eu harchwilio."*

**3.** Ochr yn ochr â'r gofyniad am Gofrestr Buddiannau yn Rheolau Sefydlog 2.1 (a nodir uchod), caiff rheolau'n ymwneud â'r gofrestr ac yn ymwneud â datgan buddiannau cofrestradwy a pherthnasol eu gosod hefyd yn y Rheolau Sefydlog, a darperir manylion pellach am y gofynion cofrestru mewn dogfen ganllawiau.

**4.** Mae'r atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi 10 categori o fuddiannau cofrestradwy (Atodiad B). Mae Rheol Sefydlog 3 yn nodi'r rheolau ar gyfer cofnodi cyflogaeth aelodau o'r teulu gyda chefnogaeth cronfeydd y Comisiwn (atodiad C), ac mae Rheol Sefydlog 4 yn nodi'r gofynion ar gyfer cofnodi'r amser sy'n ymwneud â'r holl weithgareddau cofrestradwy (atodiad E). Mae Rheol Sefydlog 5 yn ymwneud â chofnodi aelodaeth o gymdeithasau neu glybiau preifat sydd â gofynion mynediad (atodiad D).

**5.** Nodir y gofynion ar gyfer datgan buddiannau cofrestradwy cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd yn Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7 (atodiad A), a nodir y gofynion ar gyfer datgan buddiannau perthnasol o dan Reol Sefydlog 13.8A ar gyfer trafodion y Cyfarfod Llawn a 17.24A ar gyfer trafodion pwyllgor.

**6.** Mae Rheol Sefydlog 22.2(iii) yn nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor Cyfrifol (Pwyllgor Safonau Ymddygiad):

> *"[g]oruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, y Cofnod o Gyflogaeth Aelodau'r Teulu Gyda Chymorth Arian y Comisiwn, y Cofnod o Amser y bydd Aelodau yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy a'r Cofnod o Aelodaeth o Gymdeithasau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr a'r Cofnodion, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a'r Cofnodion a sicrhau eu bod yn hygyrch".*

## Pam mae hyn yn bwysig?

**7.** Mae'r broses o gofrestru a datgan buddiannau yn bwysig i Aelodau etholedig gan ei bod yn rhoi:

> *"…public notification on a continuous basis of those financial interests/material benefits held by Members which might be thought to influence their parliamentary conduct or actions."*[1]

**8.** Mae methu â chofrestru a datgan buddiant cofrestredig yn drosedd. Gall y Comisiynydd Safonau ymchwilio i achos o fethu â datgan unrhyw fuddiant (cofrestradwy neu sy'n berthnasol).

**9.** Cynhaliwyd yr adolygiad mawr diwethaf o'r gyfundrefn cofrestru a datgan buddiannau yn 2014. Argymhellodd yr adolygiad hwnnw y dylid cyflwyno system o ddatgan buddiannau perthnasol er mwyn gwella tryloywder, yn ogystal â gwneud rhai newidiadau i gategorïau fel ymddiriedolaethau dall a rhanddaliadau. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod hi, felly'n amserol gwneud gwaith yn y maes hwn.

[1] Grŵp o Daleithiau yn erbyn Llygredd (GRECO), Pedwaredd Cylch Gwerthuso – Y Deyrnas Unedig (6 Mawrth 2013), t.12

## Ymgynghoriad

**10.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn eich barn ar y meysydd isod, ond byddai'n croesawu unrhyw sylwadau ehangach ar gofrestru a datgan buddiannau o ran Aelodau o'r Senedd:

### Cofrestru Buddiannau

Mae'r atodiad i Reol Sefydlog 2 yn gosod 10 categori o fuddiannau sydd i'w cofrestru yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau. Mae'r buddiannau hyn i'w cofrestru mewn perthynas ag Aelod, partner/priod Aelod a phlentyn dibynnol.

Rhestrir y Categorïau yn atodiad B i'r ymgynghoriad hwn.

- A oes unrhyw gategorïau neu rannau o gategorïau nad ydynt bellach yn berthnasol?
- A oes unrhyw gategorïau ychwanegol y dylid eu cynnwys?
- A yw’r meysydd o fewn pob un o'r categorïau yn cynnwys y wybodaeth gywir?
- A yw'r gofrestr yn ddigon gweladwy/tryloyw?
- A yw'r gofynion adrodd o ran amserlen a gwerth yn ddigonol?

### Datgan buddiannau cofrestradwy a pherthnasol

Yn ogystal â chofrestru buddiannau ar eu cofrestr unigol, mae'n ofynnol i'r Aelodau ddatgan buddiannau cofrestradwy o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7 cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd o dan amgylchiadau penodol (nodir Rheol Sefydlog 2.6 a 2.7 yn Atodiad A).

- A yw'r rheolau ar gyfer datgan buddiannau cofrestradwy yn briodol?

Yn ogystal â buddiannau cofrestredig, mae’n rhaid i Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol hefyd. Mae'r rhain yn fuddiannau nad ydynt o reidrwydd yn ofynnol eu cynnwys ar gofrestr Aelod ond y gellir eu hystyried, fodd bynnag, yn berthnasol i gyfraniad Aelodau i drafodion y Senedd. Mae'r rhain wedi'u nodi o dan Reol Sefydlog 13.8A ar gyfer trafodion y Cyfarfod Llawn a 17.24A ar gyfer trafodion pwyllgor.

- A yw'r rheolau ar ddatgan buddiannau cofrestradwy yn briodol?
- A yw datganiadau o'r fath yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd trafodion y Senedd?
- A ellid gwella'r rheolau a/neu'r broses?

Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi sut y mae buddiannau cofrestradwy a pherthnasol i gael eu datgan cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd, fodd bynnag mae achlysuron eraill lle gall fod angen nodi buddiannau o'r fath a'u gwneud yn gliriach at ddibenion tryloywder.

- A ddylid datgan buddiannau mewn mannau eraill, megis wrth gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig a busnes arall a gyflwynir?

## Gofynion cofrestru ychwanegol

Y tu hwnt i'r gofynion a nodir yn Rheol Sefydlog 2, mae gofynion adrodd pellach wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol cofrestru aelodau o deulu Aelodau sy'n gweithio i Aelod arall (Rheol Sefydlog 3 – Atodiad C) ac Aelodaeth o Gymdeithasau (Rheol Sefydlog 5 – Atodiad E).

Mae'r gofynion o dan Reol Sefydlog 3 yn ei gwneud yn ofynnol i enw llawn Aelodau'r teulu gael ei gynnwys yn y gofrestr, yn ogystal â theitl eu swydd. Mae hwn yn ofyniad datgelu mwy nag o dan Reol Sefydlog 2, lle mae'r aelodau ond yn nodi'r berthynas â pherson e.e. priod ac yna'r buddiant perthnasol.

- A ddylai aelodau o'r teulu gael eu henwi o dan Reol Sefydlog 3?
- A yw Rheol Sefydlog 5 yn parhau'n berthnasol ac yn briodol?

## Y Canllawiau

Ynghyd â'r wybodaeth a geir yn y Rheolau Sefydlog, mae dogfen ganllaw gynhwysfawr sy'n rhoi mwy o wybodaeth am sut i gofrestru a beth i'w gofrestru. Nod y canllawiau hyn yw helpu Aelodau i ymgymryd â'u gofynion ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau.

- A oes angen unrhyw welliannau i'r canllawiau?

## Atodiad A - Datgan Buddiannau Cofrestradwy cyn Cymryd Rhan mewn Unrhyw Drafodion yn y Senedd

Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny

Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol

## Atodiad B - Y Buddiannau Cofrestradwy

Dyma’r buddiannau cofrestradwy:

(i) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir cyflog iddynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp;

(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o’r Senedd) y mae’r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheg mlwydd oed, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt, gan gynnwys derbyn unrhyw arian cyhoeddus;

(iii) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (i) a (ii) uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy’n hŷn nag un ar bymtheng mlwydd oed, sy’n deillio o’i aelodaeth o’r Senedd, neu sy’n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(iv) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na’r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o’r Senedd neu’n sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae’r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd wedi tendro, neu sy’n tendro, am gontract gyda Chomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o’r fath;

(vi) nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i’w ethol i’r Senedd, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) fel Aelod o’r Senedd oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o’r fath, rhaid i’r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o’r fath yn cynnwys unrhyw daliad i’r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol;

(vii) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Senedd, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod,

sy’n deillio o’i aelodaeth o’r Senedd neu sy’n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o’r fath wedi’i dalu’n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Senedd neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae’r Senedd yn aelod ohono;

(viii) unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y’i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i’r Aelod;

(ix) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o’r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu’n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd;

(x) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu’n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, lle y mae'r Aelod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am y cyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru.

**Atodiad C - Cofnodi Cyflogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn.**

[Sylwch: mae gofyniad bod yn rhaid hysbysu o dan Reol Sefydlog 3 yn ychwanegol at unrhyw ofyniad bod yn rhaid i gyflogaeth partner neu blentyn dibynnol Aelod gael ei chofrestru o dan Reol Sefydlog 2.  Os yw Rheol Sefydlog 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod gofrestru cyflogaeth priod neu blentyn dibynnol o dan y Rheol Sefydlog honno, rhaid i'r Aelod wneud hynny yn ychwanegol at unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 3.]

1.1  Rhaid i Aelod sydd ar unrhyw adeg, gyda chymorth arian y Comisiwn, yn cyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, berson y mae'r Aelod hwnnw'n gwybod ei fod yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3, a hynny heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn Rheol Sefydlog 3.4.

1.2 Yn Rheol Sefydlog 3:

(i) ystyr "aelod o deulu" yw:

(a) partner Aelod;

(b) plentyn, ŵyr neu wyres Aelod;

(c) rhiant, taid neu nain Aelod;

(d) brawd neu chwaer Aelod;

(e) nai neu nith Aelod; neu

(f) ewythr neu fodryb Aelod;

(ii) ystyr "partner" yw priod, partner sifil neu un o gwpl pa un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod;

(iii) mae'r ymadroddion "plentyn", "ŵyr", "wyres", "rhiant", "taid", "nain", "brawd", "chwaer", "ewythr" a "modryb" yr un mor gymwys i hannerperthnasau, llys-berthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol ac maent yn gymwys hefyd i bersonau sydd â'r berthynas o dan sylw â phartner yr Aelod;

(iv) ystyr "arian y Comisiwn" yw symiau a delir gan y Comisiwn ar ffurf lwfansau o dan adrannau 20, 21 neu 53 o'r Ddeddf.

1.3 Rhaid i'r hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 3 gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) enw'r Aelod;

(ii) os yw'r cyflogai yn aelod o deulu Aelod arall neu Aelodau eraill, enw'r Aelod arall hwnnw neu enwau'r Aelodau eraill hynny;

(iii) enw llawn y cyflogai;

(iv) perthynas y cyflogai â'r Aelod (neu, os yw'n briodol, â'r Aelod neu'r Aelodau y cyfeirir atynt yn (ii));

(v) ym mha swyddogaeth y mae'r cyflogai wedi'i gyflogi, gan gynnwys unrhyw deitl swydd;

(vi) y dyddiad y dechreuodd y gyflogaeth;

(vii) os yw'r gyflogaeth wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben; ac

(viii) yr oriau y mae'r cyflogai wedi'i gontractio i'w gweithio bob wythnos.

1.4 Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi:

(i) cyn pen wyth wythnos ar ôl y dyddiad y bydd yr Aelod yn tyngu'r llw teyrngarwch neu'n rhoi'r cadarnhad teyrngarwch; neu

(ii) cyn pen pedair wythnos ar ôl:

> (a) y tro cyntaf i'r aelod o deulu gael taliad gyda chymorth arian y Comisiwn;
>
> (b) y dyddiad y daw'r cyflogai yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall; neu
>
> (c) y dyddiad y daw'r Aelod yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r ffaith bod y cyflogai yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall,

pa un bynnag yw'r olaf.

1.5 Os:

(i) oes hysbysiad wedi'i roi o dan Reol Sefydlog 3; a

(ii) bod unrhyw newid wedi bod yn yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr hysbysiad hwnnw,

rhaid i'r Aelod, cyn pen pedair wythnos ar ôl dyddiad y newid hwnnw, roi hysbysiad ynglŷn â'r newid hwnnw.

1.6 Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3.1 neu o dan Reol Sefydlog 3.5gael ei roi drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben a'i chyflwyno i'r Clerc.

1.7 Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan Reol Sefydlog 3 a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a chan y cyhoedd.

1.8 Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog 3.1 neu 3.5, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro.

## Atodiad D - Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy

Cyffredinol

1.1 Pan fydd yn ofynnol i Aelod gofrestru buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 2.2, rhaid i'r Aelod hwnnw ar yr un pryd, pan fydd y buddiant hwnnw hefyd yn weithgarwch cofrestradwy, roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 4.

1.2 At ddibenion Rheol Sefydlog 4, mae "gweithgarwch cofrestradwy" yn fuddiant cofrestradwy sy'n dod o fewn naill ai:

(i) is-baragraff (i) o baragraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 (swyddi cyfarwyddwyr am dâl); neu

(ii) is-baragraff (ii) o'r baragraff hwnnw (cyflogaeth, swyddi, masnachau, proffesiynau neu alwedigaethau), ac sy'n ymwneud â'r Aelod ei hun (yn hytrach na phartner yr Aelod neu blentyn dibynnol i'r Aelod).

Hysbysiad

1.3 Mae hysbysiad i'w roi drwy gyfeirio at y bandiau canlynol:

(i) Band 1: Llai na 5 awr yr wythnos;

Band 2: Rhwng 5 ac 20 awr yr wythnos;

Band 3: Mwy nag 20 awr yr wythnos.

1.4 Rhaid i'r hysbysiad nodi i ba un o'r bandiau hynny y bydd cyfartaledd nifer yr oriau yr wythnos y bydd yr Aelod yn ei dreulio (neu y disgwylir iddo ei dreulio) yn gwneud pob gweithgarwch cofrestradwy yn berthnasol.

1.5 Os (pa un ai o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau neu am unrhyw reswm arall) nad yw'r hysbysiad a wneir gan Aelod mewn perthynas â gweithgarwch cofrestradwy bellach yn gywir, rhaid i'r Aelod, o fewn pedair wythnos, wneud hysbysiad arall o dan Reol Sefydlog 4.

1.6 Rhaid rhoi hysbysiad drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben hwnnw a'i roi i'r Clerc.

Cyhoeddi

1.7 Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a wneir gan Aelodau o dan Reol Sefydlog 4 a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a'r cyhoedd.

Ffurf yr Hysbysiad a'r Cofnod

1.8 Caniateir cyfuno'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 4.6 â'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 2.2.

1.9 Caniateir cyfuno'r cofnod o hysbysiadau a gedwir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 4.7 â'r Gofrestr Fuddiannau a gedwir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 2.1.

## Atodiad E – Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau

1.1 Rhaid i unrhyw Aelod roi hysbysiad ynglŷn ag unrhyw aelodaeth, neu safle o reolaeth neu ofalaeth gyffredinol, mewn cymdeithas breifat neu glwb preifat sydd â gofynion ynglŷn â derbyn aelodau.

1.2 At ddibenion Rheol Sefydlog 5.1, nid yw "gofynion ynglŷn â derbyn aelodau" yn cynnwys:

(i) y gofyniad bod yn rhaid talu tanysgrifiad; na

(ii) cytuno â thelerau ac amodau aelodaeth yn y gymdeithas neu'r clwb a'u llofnodi (ac eithrio unrhyw deler ac amod sy'n ymwneud â dewis aelodau).

1.3 Rhaid i'r Llywydd gadw a chyhoeddi cofnod o hysbysiadau'r Aelodau ynglŷn â'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 5.1 a rhaid trefnu bod copïau ar gael i'w harchwilio gan yr Aelodau a'r cyhoedd.

1.4 Rhaid i'r hysbysiadau gael eu gwneud drwy lenwi ffurflen a ragnodir gan y Llywydd.

1.5 Cyn pen wyth wythnos ar ôl i Aelod dyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol, rhaid iddo lenwi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd a llofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Clerc.

1.6 Cyn pen pedair wythnos ar ôl i aelodaeth neu newid aelodaeth ddigwydd, rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd drwy lenwi'r ffurflen ragnodedig a llofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Clerc.

1.7 Rhaid peidio â barnu bod y ffurflen y cyfeirir ati yn Rheolau Sefydlog 5.5 neu 5.6 wedi'i chyflwyno nes i'r Clerc ei chael.

1.8 Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog 5.5 neu 5.6, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro.